OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1350

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022

## RHAN 3

### Achosion y mae'r rheolau rhagnodedig yn gymwys iddynt

**8.** At ddibenion adran 58(2) o'r Ddeddf, yr achosion yw'r rhai sy'n dod o fewn y disgrifiadau a ragnodir yn rheoliad 9, ac nad ydynt yn dod o fewn y disgrifiadau a ragnodir yn rheoliad 10.

**Disgrifiadau rhagnodedig**

**9.** Hereditament diffiniedig—

(a) pan fo'r NCA yn fwy na'r swm a gyfrifir drwy ddefnyddio'r fformiwla—

$$BL + 300$$

, a

(b) pan fo meddiannydd yr hereditament, ar y diwrnod perthnasol, yr un person â'r meddiannydd ar 31 Mawrth 2023.

**Eithriadau**

**10.** Hereditament diffiniedig—

(a) pan fyddai, ar y diwrnod perthnasol, y swm a godir yn sero fel arall o dan adran 45A o'r Ddeddf(**1**), neu

(b) pan fo, ar y diwrnod perthnasol, ddosraniad o dan adran 44A(1) o'r Ddeddf(**2**) yn gymwys i'r hereditament ac yn cael effaith mewn perthynas â'r swm a godir.

(**1**) Mewnosodwyd adran 45A o'r Ddeddf gan adran 1(2) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 (p. 9) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2013/463.

(**2**) Mewnosodwyd adran 44A o'r Ddeddf gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraff 22 o Atodlen 5 iddi. Fe'i diwygiwyd gan adran 117(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14), a pharagraff 62 o Atodlen 13 iddi, a chan adran 2(1) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 (p. 9), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi.